



## **Gweddi dros yr Etholiad Cyffredinol**

Duw'r holl lywodraethau, anfon gweithwyr i faes cynhaeaf bywyd gwleidyddol.

Galw ar dy bobl – nid yn unig y rhai sy'n honni eu bod yn dy adnabod, ond y rhai sy'n adnabod dy lais ac yn gwybod dy enw.

Galw'r rhai na fyddant yn gwasanaethu dau feistr, y rhai a fydd yn dewis teyrnas dros lwyth, y rhai nad oes ganddynt gywilydd o'r efengyl a'r rhai a fydd yn siarad dros y rhai na allant siarad drostynt eu hunain.

Galw'r rhai a fydd yn ceisio cyfiawnder, annog y gorthrymedig, amddiffyn achos yr amddifad, ac yn pledio achos y weddw.

Galw'r rhai sy'n ceisio cymodi yn fwy na gwahanu, y rhai sy'n ceisio cydweithredu yn fwy na chystadlu a'r rhai sy'n ceisio heddwch yn fwy na grym.

Galw'r rhai bydd yn dewis dy ogoniant dros hyrwyddo'u hunain a'r rhai a fydd yn dewis y gwirionedd dros hwylustod.

Galw'r rhai fydd yn gwrando ar y llais llonydd, bach yn fwy na megaffon y cyfryngau a'r rhai a fydd yn gofalu am y lleiaf, yn hytrach nag ymgrymu i'r mwyaf.

Galw'r rhai sy'n dod o hyd i'w hunaniaeth a'u diogelwch mewn etholiad dwyfol yn hytrach nag etholiad gan ddynolryw, y rhai y mae eu dinasyddiaeth yn y nefoedd, y rhai sydd a'u prif deyrngarwch i frenin arall.

Galw'r rhai na allant helpu ond siarad am y rheswm tu ôl i'r gobaith sydd ganddynt – y rhai sy'n gwybod bod eich gras yn cwmpasu eu methiannau.

Galwch allan fyddin a fydd yn ymladd nid gydag arfau'r byd hwn, ond â nerth grymus Dy deyrnas heddychlon.

Amen.